| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor** |
| **Dyddiad:** | **9 Chwefror 2015 a 26 Chwefror 2015** |
| **Pwnc:** | **Estyn Tymor y Pwyllgor Safonau** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Alwyn Rowlands** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Awena Walkden**<br>**01248 752134**<br>**awxce@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **D/B** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Mae'r Pwyllgor Gwaith yn argymell:-

1. Bod y Cyngor yn cymeradwyo ailbenodi Aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau am gyfnod pellach o 4 blynedd o 17 Rhagfyr 2015.

2. Bod y Cyngor yn rhoi awdurdod i'r Swyddog Monitro wneud yr holl newidiadau canlyniadol i Gyfansoddiad y Cyngor a Chyfansoddiad y Pwyllgor Safonau er mwyn estyn yr holl apwyntiadau i'r dyfodol i ddau dymor yn awtomatig ar gyfer holl Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau.

**CEFNDIR**

3. Yn unol â Rhan 3 Deddf Llywodraeth Leol 2000 (fel y cafodd ei diwygio gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2006) rhaid i'r Cyngor gael Pwyllgor Safonau sy'n cynnwys dim llai na 5, a dim mwy na 9 o Aelodau.

4. Rhaid i o leiaf un Aelod (mae gennym ddau yn y Cyngor hwn) fod yn Aelod o Gyngor Tref neu Gymuned, a enwebwyd ar y cyd gan y Cynghorau Tref a Chymuned. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynnwys dau Gynghorydd Sir.

5. Bydd tymor Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau yn dod i ben ar 17 Rhagfyr 2015 yn unol â'r trefniadau un tymor cyfredol.

6. Mae pob Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn gwasanaethu am 4 blynedd ond maent yn gymwys i ailymgeisio am un tymor ychwanegol.

7. Mae penderfyniad cynharach a wnaed gan y Cyngor yn rhwystro'r Aelodau hyn rhag cael eu penodi'n awtomatig am dymor arall heb fynd trwy broses gystadleuol ar gyfer penodiadau

allanol.

8. Fodd bynnag, mae'r rheoliadau statudol yn cynnwys darpariaeth nad oes angen dilyn proses recriwtio er mwyn penodi am ail dymor.

9. Mae'r Swyddog Monitro wedi ymgynghori'n anffurfiol gyda'r Aelodau Annibynnol sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Safonau ar hyn o bryd ynghylch a ydynt yn fodlon i gael eu hailbenodi am dymor ychwanegol o 4 blynedd; mae'r holl Aelodau o'r fath wedi cadarnhau y byddent yn hapus i gael eu hailbenodi.

10. Mae'r Swyddog Monitro yn credu bod penodi'r Aelodau annibynnol cyfredol sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Safonau yn well na recriwtio oherwydd:-

    1) Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu hynny'n benodol ond gan bennu uchafswm o ddau dymor er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn cael ei adnewyddu'n rheolaidd.

    2) Nid oes cyfiawnhad mwyach ar gyfer parhau gyda'r trefniadau dewis lleol. Hynny yw, ni ellir awgrymu mwyach bod y Pwyllgor Safonau wedi diflasu o ganlyniad i orfod delio gyda nifer o gwynion a chroesgwynion. Erbyn hyn mae'r cwynion yn brin ac mae'r rhan fwyaf o waith y Pwyllgor Safonau yn waith y mae'n ysgogi ei hun yn hytrach na gwaith ymatebol.

    3) Mae'r Cyngor wedi buddsoddi amser ac anodau sylweddol i ddilyn y broses statudol angenrheidiol ar gyfer recriwtio a dewis aelodau Annibynnol cyfredol y Pwyllgor Safonau. Yn yr un modd mae swyddogion ac Aelodau eu hunain wedi gwneud llawer o waith o ran datblygu eu swyddogaethau a derbyn hyfforddiant. Byddai'n wastraff o'r buddsoddiad a wnaed gan bawb i beidio â manteisio ar y cyfle i wneud y mwyaf o'r buddsoddiad hwnnw trwy sicrhau tymor o 4 blynedd ychwanegol.

    4) Mae Aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau wedi ennill profiad a hyder yn eu swyddogaethau ac wedi gwneud hynny'n gydwybodol ac yn broffesiynol, gan gynnwys gwneud cyfraniad gwerthfawr i Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru. Byddai estyn eu cyfnod ar y Pwyllgor yn gyfle i adeiladu ar hynny.

    5) Byddai unrhyw Aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau nad yw'n dymuno gwasanaethu am ail dymor, neu sy'n methu â chwblhau'r tymor, yn cael ei ddisodli trwy broses statudol ac mae'r Panel ar gyfer penodi i'r Pwyllgor Safonau eisoes wedi ei sefydlu.

    6) Mae deddfwriaeth am ddod i rym (ni wyddys y dyddiad hyd yma) a fyddai'n caniatáu (ond nid yn gorfodi) i Gynghorau sefydlu Pwyllgorau Safonau Rhanbarthol. Pe bai'r Cyngor hwn yn dymuno dilyn y trywydd hwnnw yna ni fyddai proses recriwtio, dethol a datblygu yn ystod 2015/16 efallai yn ddefnydd gorau o adnoddau.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Pe bai'r Cyngor yn gwrthod yr argymhelliad byddai'r unig opsiwn arall yn cael ei sbarduno'n awtomatig beth bynnag. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Bydd penodi Aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau yn awtomatig am ail dymor yn golygu y bydd angen newid y Cyfansoddiad a dim ond y Cyngor llawn all gymeradwyo newid o'r fath ar ôl i'r Pwyllgor Gwaith ystyried y mater. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| D/B – penderfyniad i'r Cyngor yw hwn. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Nid oes unrhyw ystyriaethau cyllidebol. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)**<br>(mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151**<br>(mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro**<br>(mandadol) | Comisiynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Monitro |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill**<br>Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau<br><br>Arweinyddion Grwpiau | Cyfeiriwch os gwelwch yn dda at baragraff 9.<br><br>Yn cefnogi'r cysyniad ond yn cydnabod mai mater ar gyfer holl Aelodau'r Cyngor ydyw. |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** |
|---|

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Dim |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Dim. |